# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi*

***28 Chwefror 2012***

***Adroddiad yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig***

***1.0 - <u>Dŵr Ymdrochi Aberdyfi</u>***

***1.1*** Ym mis Rhagfyr 2011, cadarnhawyd fod ansawdd y Dŵr Ymdrochi yn Aberdyfi wedi cyrraedd y Safon Gofynnol am 2011 ac felly er nad oedd ansawdd y dŵr wedi cyrraedd y safon uchaf gofynnol i Wobr Ryngwladol y Faner Las am nifer o flynyddoedd, mae cais wedi ei gyflwyno gan yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig am Wobr Traeth Tref Glan Môr i'r corff Llywodraethol a disgwylir y bydd yn llwyddo.

Bydd yr aelodau yn ymwybodol bod newid sylweddol yn y Gyfarwyddeb bresennol ac mae'r amserlen i'r Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi a ddiwygiwyd fel a ganlyn.

- **2012**: Mae hi'n orfodol fod arwyddion priodol yn eu lle i'r holl draethau Dŵr Ymdrochi Dynodedig erbyn dechrau'r tymor ymdrochi h.y. dechrau mis Mai. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn dechrau ar waith monitro'r Traethau Dynodedig gan ddefnyddio paramedrau'r Gyfarwyddeb ddiwygiedig. Mae arian grant wedi ei ddiogelu i'r arwyddion ac mae'r Uned wedi cyflwyno cais am gymorth grant.
- **2014**: Adroddiad Dyfroedd Ymdrochi Terfynol yn defnyddio safonau'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi bresennol.
- **2015:** Cyhoeddi'r set gyntaf o ddosbarthiadau yn defnyddio'r paramedrau newydd i Ddyfroedd Ymdrochi a bydd hyn wedi ei seilio ar y set data sy'n dechrau yn 2012.
- **2016** Bydd dosbarthiadau newydd yn ymddangos ar yr arwyddion gan ddefnyddio symbolau sy'n cael eu paratoi gan y CE.

1.2 Fel yr adroddwyd i'r Aelodau daw'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi Ewropeaidd newydd i rym yn 2015, a bydd cwrdd â'r meini prawf caeth i Ddyfroedd Ymdrochi a osodir gan y Gyfarwyddeb newydd yn heriol. Ar ôl trafodaeth bellach gyda swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd, ac o gofio am safon anwadal y dŵr ymdrochi yn Aberdyfi dros y pum mlynedd diwethaf, mae hi yn bosibl y gallai Dŵr Ymdrochi Aberdyfi gael ei ddosbarthu fel bod o 'safon wael' o dan y gyfarwyddeb newydd yn 2015.

Bydd pedwar dosbarth o ddyfroedd ymdrochi o dan y gyfarwyddeb ddiwygiedig, sef:

- Rhagorol
- Da
- Digonol
- Gwael

1.3 O edrych yn gadarnhaol tua'r dyfodol, pe byddai ansawdd cyffredinol y dŵr ymdrochi yn Aberdyfi yn cwrdd â'r safon ofynnol yn flynyddol yna bydd yr Uned Forwrol a Pharciau gwledig yn parhau i weithio i gwrdd â'r meini prawf ar y tir gan barhau i gyflwyno cais am Wobr Traeth i draeth Aberdyfi. Rydym o'r farn fod gwobr o'r fath yn un gyda bri a gydag effaith gadarnhaol i gynyddu twristiaeth a hefyd ar yr economi lleol. Mae'r gwaith o fonitro Dŵr Ymdrochi hefyd yn galluogi'r Cyngor i fesur ansawdd a safon ardaloedd ymdrochi lleol.

1.4 Cyrhaeddodd Ansawdd Dŵr Ymdrochi Tywyn y Canllaw safonol gofynnol yn 2011. Rhagwelir y bydd traeth Tywyn felly yn derbyn Gwobr Ryngwladol y Faner Las yn 2012. Mae'r Uned wedi gofyn i Seremoni flynyddol Baner Las Cymru gael ei chynnal yn Nhywyn yn 2012 gyda'r nod o ddenu cyhoeddusrwydd cadarnhaol i'r ardal.

Mae canlyniadau'r Dŵr Ymdrochi a gadarnhawyd i Aberdyfi, Fairbourne ac Abermaw am Dymor Ymdrochi 2011 yn atodol er gwybodaeth a thrafodaeth.

## *2 – __Ffioedd a Thaliadau__*

2.1 Mae'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol 2012/13 wedi eu cytuno gyda'r Arweinydd Portffolio. I sicrhau bod ein cleientiaid yn ymwybodol o'r taliadau a ddaw, mae'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig wedi cysylltu â'r holl gleientiaid ac wedi eu hysbysu o'r ffioedd a'r taliadau diwygiedig.

2.2 Mae copi o ffioedd a thaliadau harbwr Aberdyfi ac Abermaw yn atodol, ac fe fydd yr Aelodau yn nodi yr argymhellir fod cynnydd o **2.5%** yn ffioedd a thaliadau'r harbwr i bob cwch fydd yn angori yn yr ardal sydd o dan awdurdod harbwr Aberdyfi ac Abermaw yn 2012/13.

2.3 Rhagwelir y bydd y cynnydd yn harbwr Aberdyfi am 2012/13 yn **2.08%** ffigwr sydd wedi ei selio ar nifer o ffactorau sy'n codi a gostwng uwchben lefel chwyddiant (Trydan ac ati). Fel bydd yr aelodau yn cofio, mae cynnydd cyflog wedi aros yn llonydd am y ddwy flynedd ddiwethaf ond mae cynnydd bach wedi ei ymgorffori ym mynegrif pob cyllideb. O'i gymharu gydag Aberdyfi, mae'r Raddfa Chwyddiant gaiff ei ddarogan i Abermaw yn **1.69%**

2.4 Gyda'r graddfeydd chwyddiant a soniwyd amdanynt eisoes wedi eu hystyried mae'r cynnydd cyffredinol yn y targed incwm i Aberdyfi am 2012/13 yn **£830** sy'n dod a chyfanswm y targed incwm i **£40,700** am y flwyddyn Er bod diffyg sylweddol yn yr incwm i harbwr Aberdyfi, rhagwelir bod y cynnydd yn y ffioedd angori ar lefel sydd ychydig uwchben chwyddiant unwaith eto yn 2012/13 a bydd hyn yn pontio'r cyfanswm sy'n parhau i gynyddu wrth gymharu'r targed incwm gyda'r incwm diwedd blwyddyn sy'n cael ei greu. Mae cwrdd â'r targed incwm yn bwysig yn enwedig o gofio bod disgwyliad i barhau oddi fewn i'r gyllideb gyda gwariant.

2.5 O safbwynt harbwr Abermaw a gyda'r raddfa chwyddiant wedi ei darogan i fod yn **1.69%** bydd y targed incwm cyffredinol i Abermaw yn 2012/13 yn **£46,860**.

2.6 Bydd yr Aelodau yn ymwybodol nad yw targed incwm Aberdyfi na harbwr Abermaw wedi cael eu cwrdd am nifer o flynyddoedd, ac fel y disgwylir mewn amgylchiadau ariannol difrifol cafodd mesurau pellach ar arbedion effeithlonrwydd eu nodi a'u trafod. Bydd angen cymryd camau blaengar i sicrhau bod y gwariant cyffredinol a'r targedau incwm yn cyrraedd eu targedau, heb gyfaddawdu ar safonau a diogelwch.

2.7 Mae'r ffioedd a'r taliadau i lansio a chofrestru Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol hefyd wedi cynyddu am y flwyddyn ariannol nesaf. Mae ffioedd lansio yn aros yn sefydlog ar £12.00 yr un i lansio dyddiol. Mae copi o'r ffioedd a'r taliadau i Lansio ac i gofrestru Cychod Pŵer yn atodol.

2.8 Mae'r cynnydd yn nharged incwm cyffredinol yr Uned forwrol am 2012/13 yn **£94,800** sy'n cymharu gyda tharged a gynyddwyd o **£57,330** yn 2011/12. Mae hyn yn cynyddu targed incwm cyffredinol yr Uned forwrol (heb gynnwys Parciau Gwledig) i **£2,467,550** yn 2012/13, targed sylweddol fydd yn her i'w gyrraedd o dan yr hinsawdd economaidd fregus a chyfnewidiol.

## *3. - <u>Cyllidebau</u>*

3.1 Mae sefyllfa ariannol harbwr Aberdyfi ac Abermaw am drydydd chwarter y flwyddyn ariannol hyd at 31ain Rhagfyr 2011, yn atodol er gwybodaeth. Bydd yr aelodau yn nodi fod y targed incwm i harbwr Aberdyfi am 2011/12 yn **£39,870** a bod y cyfanswm incwm a grëwyd hyd ddiwedd Rhagfyr 2011 yn **£30,983**. Mae hyn o'i gymharu gyda chyrraedd cyfanswm o **£30,003** erbyn diwedd Rhagfyr 2010 a chyfanswm o **£31,694** mewn incwm am yr un cyfnod yn 2009. Er bod y lefelau incwm wedi aros bron yn union yr un fath, mae'r lefel a gyrhaeddwyd o dan y targed.

3.2 Ar 31ain Rhagfyr 2011 roedd y diffyg mewn incwm yn harbwr Aberdyfi yn **-£8,887** ac mae'r cyfanswm hyd yma yn dangos yn amlwg bod tueddiad cyffredinol sy'n parhau ac yn gyson sef diffyg incwm blynyddol. Nid ydym yn rhagweld y bydd swm sylweddol o incwm yn cael ei greu yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol bresennol, ac felly, disgwylir na fydd targed incwm harbwr Aberdyfi yn cael ei gwrdd.

Rydym yn darogan y bydd y gwariant cyffredinol oddeutu **-£2,000** o dan y targed gofynnol oherwydd tan wariant ar rai penawdau yn y gyllideb. Mae'r gwarged cymharol fychan yma'n cynnwys gostwng nifer y staff dros gyfnod y gaeaf mewn ymdrech i gwrdd â tharged y gyllideb. I atgoffa'r aelodau, mae'r cyfanswm cyffredinol hefyd yn cynnwys arian a gyflwynwyd i'r gyllideb o benawdau eraill yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig er mwyn ymgymryd â rhai prosiectau yn Aberdyfi.

3.3 Fel yn y blynyddoedd a fu, mae cyfanswm y gwariant cyffredinol wedi ystyried y targed incwm ac o gofio am y gorwariant a ragwelir mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth, fe fydd yn rhaid adnabod arbedion ychwanegol o holl benawdau cyllideb yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig. Mae hi'n hollol annerbyniol i'r gwariant fod yn uwch na'r gyllideb a ddyrannwyd a bydd angen craffu ymhellach ar holl benawdau'r gyllideb yn ystod yr wythnosau nesaf.

3.4 O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol a'r gofyn i adnabod rhagor o arbedion, fe fydd 2012/13 unwaith eto yn flwyddyn heriol iawn i'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn enwedig i harbwr Aberdyfi ac Abermaw sy'n dangos eu bod angen cymorth ariannol ychwanegol. Pwysleisir yn gryf y bydd yn rhaid goresgyn gorwariant a'r diffyg mewn incwm yn enwedig o gofio'r gostyngiad cyffredinol yn y gyllideb sydd ar gael i Gyngor Gwynedd a'r arbedion sydd angen eu hadnabod yn y dyfodol.

3.5 O'i gymharu, mae'r targed incwm i Abermaw am yr un cyfnod yn **£46,080** ac mae cyfanswm o **£32,602** wedi ei gyrraedd gan adael diffyg yn Abermaw o **£13,478**. Mae'r uchod yn debyg i'r sefyllfa am yr un cyfnod yn 2011. Er hynny, disgwylir y bydd arbediad o tua **-£2,000** yn y gyllideb wariant yn Aberdyfi a fydd yn ei dro yn dangos tan wariant cyffredinol o tua **-£11,000** i Abermaw ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## *4 <u>Mordwyo</u>*

4.1 Mae dau gymhorthydd mordwyo pwysig heb fod yn eu safle yn Harbwr Aberdyfi ers mis Rhagfyr 2011. Nid yw Bwi bar Rhif 1 Starbord, FIG5 a Bwi Port Rhif 2, FIR5 yn eu lleoliad. Mae hi'n hanfodol fod gwaith cynnal a chadw ar yr holl Gymhorthion Mordwyo yn cael ei

gwblhau cyn gwyliau'r Pasg sy’n gynharach, yn nechrau Ebrill eleni. Rhaid i’r holl Gymhorthion Mordwyo fod yn eu lle penodol cyn y Pasg.

4.2 Cafodd y bwi Bar starbord ei niweidio fel nad oedd modd ei drwsio ac rydym am gael bwi yn ei le. Cludwyd y bwi Port i Borthmadog i’w drwsio a bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio fel mowld i adeiladu bwiau yn lle bwiau mewn harbyrau eraill. Bydd y Swyddog Morwrol Harbyrau a’r Harbwr Feistr yn rhoi rhagor o fanylion yn y cyfarfod am y rhaglen waith ar gyfer Cymhorthion Mordwyo yn Aberdyfi. Bydd gwybodaeth hefyd yn cael ei dosbarthu yn y cyfarfod gan fanylu ar y gwaith cynnal a chadw diwygiedig, y system angori a diogelwch i bob bwi ynghyd â manylion am y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol.

4.3 Mae hi’n ofynnol fod bwiau dangos y Parth Gwahardd Cychod yn eu lle cyn penwythnos Gŵyl Banc y Sulgwyn. Yn anffodus, mae’r system angori daear a ddefnyddiwyd i ddiogelu’r bwiau marcio’r traeth wedi bod yn ddiffygiol ar dywydd garw ac yn ystod llanw mawr.

4.4 Fel yn y blynyddoedd a fu, bydd angen adnabod arian o’r gyllideb refeniw bresennol i gwrdd â’r gost o gynnal a chadw Cymhorthion Mordwyo, sy’n ddyletswydd statudol. Caiff yr holl Gymhorthion Mordwyo eu harchwilio yn flynyddol gan Dŷ’r Drindod.

Er bod dau gymhorthydd mordwyo ddim ar eu safle mae hi’n amlwg nad oes unrhyw Hysbysiadau i Forwyr mewn grym yn harbwr Aberdyfi ar hyn o bryd. Rydym ymchwilio i’r sefyllfa ynglŷn â chyflwyno Hysbysiad i Forwyr.

## *5 - Staff*

5.1 Hysbysebwyd swydd Cynorthwywr Harbwr yn Aberdyfi, am y tymor sydd i ddod, yn y wasg leol ac ar wefan y Cyngor. Bydd y swydd yn dechrau ar yr 2il o Ebrill ac yn parhau tan 30ain Medi 2012. Yn ogystal, rydym wedi hysbysebu swydd y Cynorthwywr Harbwr yn Abermaw a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn cael ei gyflogi o’r 1af Ebrill i’r 30ain o Fedi.

5.2 Yn ystod prif gyfnod gwyliau’r haf, rhagwelir y byddwn yn penodi un swyddog traeth i Aberdyfi a’r gobaith yw y bydd yn dechrau ar ei dd/dyletswyddau yng nghanol Mehefin. Rydym yn ystyried y posibilrwydd o gyflogi dau Swyddog Traeth tymhorol yn Nhywyn gan fod y gwaith adeiladu ar y cynllun amddiffyn arfordirol newydd wedi ei gwblhau. Bydd dyletswyddau’r Swyddogion Traeth yn Nhywyn yn dechrau yng nghanol Mehefin.

Yn y blynyddoedd a fu, mae’r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig wedi penodi un Cynorthwywr Harbwr tymhorol ychwanegol yn Aberdyfi a phrif ddyletswyddau’r swydd yw monitro a rheoli cychod pŵer a chychod hwylio sy’n mordwyo yn yr harbwr yn ystod y cyfnod prysuraf. O ystyried y cyfyngiadau cyllidol, nid ydym yn rhagweld y bydd y swydd yma’n cael ei hysbysebu yn 2012. Bydd gofyn i staff sicrhau fod y lefel briodol o wasanaeth a goruchwylio yn cael ei ddefnyddio yn nyfroedd harbwr Aberdyfi.

## **6 *Wal y Cei***

6.1 Er nad oes gennym unrhyw fanylion pendant ar hyn o bryd am y gofyniad i gynnal a chadw wal y cei rydym yn parhau i ystyried y broses sydd ei hangen i alluogi i waith cynnal a chadw gael ei wneud ar y wal. Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael o gofio fod wal y cei o bwysigrwydd sylweddol yng ngweithrediad yr harbwr ac mae hefyd yn cynnal seiliau Canolfan Dyfi, y Ganolfan Ymwelwyr a Chlwb Hwylio Aberdyfi. Rydym yn parhau i wneud ymholiadau i benderfynu os fyddai wal y cei yn cael ei hystyried fel strwythur amddiffyn yr arfordir neu fel wal cei mwynderol. Bydd diffiniad pwrpas y wal yn penderfynu ar lefel yr arian a all fod ar gael pan fo’r stanciau dalennau yn cael eu newid.

6.2 Rydym wedi cymryd camau i leihau effaith y cyrydiad dŵr isel sydd wedi gwaethygu ac mae anodau i atal rhydu wedi eu lleoli ar y stanciau dalennau. Mae'n ymddangos nad yw lleoliad yr anodau ar y stanciau dalennau yn effeithiol ac fe welir hyn gan fod angen newid yr anodau atal rhydu yn aml.

## 7 *Cyfleusterau'r Harbwr*

7.1 **Bryn Llestair (Picnic Island)** - Cyfrifoldeb yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yw'r bont droed sy'n rhoi mynediad i gerddwyr o'r briffordd i Fryn Llestair. Nid yw'r droedffordd yn Hawl Tramwy Cyhoeddus ond mae wedi cael ei defnyddio gan aelodau'r cyhoedd ers talwm. Mae mynediad i Fryn Llestair yn caniatáu i berchnogion badau hwylio i gael mynediad i'w cwch ac mae hefyd yn rhoi mynediad i lwybr arfordirol sydd yn cael ei adnabod yn lleol fel y 'Ffordd Rufeinig'.

7.2 Mae'r bont droed wedi bod yn cael ei thrwsio dros nifer o flynyddoedd ac mae ei chyflwr yn araf ddirywio. Er nad oes unrhyw arian ar gael i gael pont arall bydd rhaid gweithredu yn y dyfodol agos er sicrhau nad yw'r bont droed yn beryglus i ddefnyddwyr. Ymhellach, mae'r bont droed yn croesi llinell Reilffordd 'fyw' ac mae hi'n hanfodol fod y droedffordd yn cael ei chynnal i safon fel nad oes unrhyw berygl i'r rheilffordd.

7.3 Yn ystod 2011, cafodd y bont droed ei harchwilio gan Beirianwyr Uned Ymgynghoriaeth Cyngor Gwynedd ac roedd gofyn hefyd sicrhau bod Arolygydd Rheilffordd yn bresennol i sicrhau nad oedd unrhyw falurion o'r archwiliad yn dod i gysylltiad â'r rheilffordd. Ariannwyd cost yr archwiliad o'r gyllideb bresennol. Roedd y costau fel a ganlyn: Archwiliad - £350.00 Costau'r Arolygydd Rheilffordd - £1,000. Byddwn yn comisiynu arolwg pellach manwl o'r bont droed gan yr Uned Ymgynghoriaeth yn ystod gwanwyn 2012.

7.4 **Llwybr Pren– Llwybr Troed y Golff –** Cafodd y cyfrifoldeb am y llwybr pren i gerddwyr sy'n darparu mynediad ar draws y twyni i'r traeth o ddiwedd y Llwybr Cyhoeddus, ei drosglwyddo i'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig. Harbwr Feistr Aberdyfi sy'n gyfrifol am archwilio a chynnal a chadw'r Llwybr Pren yn unol â'r cyfnod archwilio. Er ei bod yn hanfodol fod cyfleuster o'r fath yn cael ei gynnal er lles y gymuned a'r economi mae hi'n bwysig pwysleisio bod costau refeniw yn gysylltiedig gyda chynnal a chadw strwythurau o'r fath.

7.5 Ar yr archwiliad cyntaf mae angen gwaith cynnal a chadw i'r Llwybr Pren cyn dechrau gwyliau'r Pasg. Mae'r amcangyfrif cychwynnol i'r gwaith cyffredinol sydd i'w wneud oddeutu £700. Amcangyfrifir fod y gost o roi darn newydd yn y rhan i gyfeiriad y môr oddeutu £3,460.